Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Aberaeron
# Gerddi Wellington
# Aberaeron
# Ceredigion
# SA46 0BQ

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Aberaeron

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Aberaeron yn nhref Aberaeron, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae 224 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol saith dosbarth oed sengl, un dosbarth oed cymysg ac un dosbarth meithrin rhan amser.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 25% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 23% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg llwyddiannus ac maent yn gwneud cynnydd cadarn ar lafar ac yn eu darllen. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf, wrth drafod, cyflwyno gwaith ysgrifenedig a darllen yn datblygu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu defnydd o'u medrau mathemateg a'u cysyniadau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn arddangos eu hyder yn y maes a'u gallu i addasu eu medrau yn bwrpasol at wahanol ddibenion.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn weithgar iawn ac yn cynllunio profiadau dysgu arloesol ac ysgogol ar gyfer y disgyblion. Maent yn cynnwys llais y disgybl yn effeithiol dros ben wrth gynllunio gweithgareddau sy'n sbarduno cwricwlwm trawiadol a chyffrous. Maent yn gofalu'n deyrngar iawn am eu disgyblion ac yn cynnig arweiniad a chymorth sy'n hynod o ddibynadwy iddynt. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol.

Mae gan y pennaeth dylanwadol ddealltwriaeth gadarn iawn o anghenion yr ysgol. Mae hi'n cydweithio'n ddiwyd iawn gyda'r uwch dîm rheoli cadarn a'r llywodraethwyr ymroddgar. O ganlyniad, maent yn adeiladu ar gryfderau'r ysgol yn ganmoladwy ac yn gwella'r meysydd i'w datblygu yn ddoeth, trwy weithdrefnau gwella ansawdd cywrain a manwl.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu a'r cynllunio yn herio'r disgyblion mwy galluog i ysgrifennu'n ymestynnol hyd eithaf eu gallu

A2 Gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion

A3 Sicrhau bod athrawon yn ymyrryd llai yn nysgu'r disgyblion yn ystod gweithgareddau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio themâu ysgogol a mabwysiadu sbardunau a digwyddiadau arloesol i ddylanwadu'n gyfoethog ar brofiadau a dysgu'r disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd llawer is na’r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg llwyddiannus ac yn cyflawni’n gadarn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd pwrpasol yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r rhan fwyaf yn cyflawni’n dda wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Maent yn hyderus ar lafar ac yn deall bod gwrando’n astud ar eraill yn rhan annatod o’u dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn sgwrsio’n hyderus am eu gwaith ac am y bwrlwm sy’n perthyn i weithgareddau’r ysgol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn esbonio’n eglur pa gyfarwyddiadau sy’n bwysig i ddilyn i greu cardiau Pasg deniadol. Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau llafar Saesneg huawdl, yn enwedig wrth drafod yr erchylltra sy’n perthyn i hanesion ffoaduriaid o Syria.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen bwriadus. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg yn glir. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n frwdfrydig ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn ofalus, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Maent yn disgrifio digwyddiadau mewn stori yn effeithiol ac yn esbonio’n gelfydd y rhesymau dros weithred benodol, fel pêl-droedwyr yn cofleidio’i gilydd ar ôl sgorio gôl. Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu’n glir yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio’n gydwybodol ar y we, gan gynnwys bywyd faciwî yn yr Ail Ryfel Byd. O ganlyniad, maent yn defnyddio eu medrau darllen uwch yn gynhyrchiol i gywain gwybodaeth eang o wahanol ffynonellau.

Mae llawer yn ysgrifennu’n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn nifer o gyd-destunau amrywiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn creu darnau difyr a chywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys llyfryn ar ddiwrnodau olaf Iesu Grist yn Jerwsalem a storïau antur am y goedwig hud. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu’n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio bywyd hunllefus trapiwr yn y pyllau glo yn feddylgar ac yn ystyried symudiadau gronynnau mewn solidau, hylifon a nwyon yn ddeallus. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu ymestynnol y disgyblion mwyaf galluog yn adlewyrchu eu gwir alluoedd.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf yn gadarn. Maent yn cymhwyso’u gwybodaeth fathemategol, mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd, ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Enghraifft dda yw’r ffordd y mae’r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn mesur yr union faint o nwyddau sydd eu hangen arnynt i greu nyth allan o does. Mae gan y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gref o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a’i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae’r rhan fwyaf yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell manwl ar ôl cymharu tymheredd Llambed ar amserau penodol yn ystod y dydd. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfesurynnau

mewn pedwar pedrant yn hyderus i greu tŷ a chalendr adfent, a didoli'n gywir onglau lem, sgwâr ac aflem trwy amcangyfrif eu graddau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni tasgau a chymhwyso'u medrau rhifedd estynedig yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio'r sgrîn werdd a meicroffonau yn hynod o lwyddiannus wrth greu ffilm ysgogol am gynnal bad achub ar yr arfordir lleol. Yn ogystal, maent yn rhaglennu dyfeisiau electronig yn dda i symud i sgwâr penodol ar grid. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data yn fwriadus i gasglu gwybodaeth am aelodau'r dosbarth, fel lliw eu llygaid. Maent yn cwestiynu a threfnu'r gwybodaeth yn dda i ddarganfod patrymau penodol yn y data. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau yn bwrpasol i gael mynediad i wefannau dysgu i gwblhau eu gwaith yn ddiogel, naill ai yn y dosbarth neu adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, o fewn y naws gartrefol a theuluol sy'n bodoli ynddi. Maent yn mwynhau'r holl weithgareddau ac mae bron pob un yn ymddwyn yn rhagorol mewn gwersi ac o gwmpas yr adeilad. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod perthnasoedd agos iawn rhyngddynt a'r staff. Mae 'bocs syniadau' yr ysgol a'r gwahanol grwpiau arweiniol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi eu barnau a'u dyheadau. Mae hyn yn atgyfnerthu eu sicrwydd bod oedolion yn ymateb i'w syniadau a'u pryderon yn fwriadus.

Mae gan bron pob disgybl ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus, fel cynllunio gwyliau tramor dychmygus i 'seren roc'. Mae'r rhan fwyaf yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac mae eu cydweithio llwyddiannus yn nodwedd gref ymhob dosbarth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn cadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff rheolaidd. Maent yn defnyddio eu medrau corfforol yn llwyddiannus mewn gweithgareddau allgyrsiol fel pêl-droed, pêl-rwyd a'r 'Clwb Adar'. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynnal lefelau uchel o ffitrwydd er lles eu cyrff.

Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgîl defnydd anaddas o'r we yn effeithiol. Mae'r dewiniaid digidol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi hyn.

Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol iawn i'w dysgu. Maent yn cynnig syniadau hynod o werthfawr i'w cynnwys yn y themâu tymhorol ac wythnosol ac yn deall bod eu lleisiau'n bwysig i wella'u dysgu. O ganlyniad, maent yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus, fel manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am y trychineb ddiweddar ym Mozambique.

Mae'r rhan fwyaf yn oddefgar a sensitif i anghenion a theimladau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw.  O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal.  Er enghraifft, deallant fod hawliau a thraddodiadau penodol yn perthyn i wahanol gredoau, fel Mwslimiaid Syria a Christnogion ar adeg y Pasg.

Mae bron pob disgybl yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.  Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y cyngor ysgol iach a'r arweinwyr digidol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddwys.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol.  Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion.  Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus ac maent yn cynnig rhesymau pwrpasol am wneud penderfyniadau cytûn ar ran eu cyfoedion.  Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol iach wedi trefnu bws cerdded i'r ysgol yn ystod tymor yr haf, oherwydd problemau traffig a pharcio gerllaw'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol.  Maent yn deall pwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ymhyfrydu mewn ymweliadau'r henoed i'r ysgol.  Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cymdeithasol a chryfhau eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn.

Mae bron pob disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn datgan eu clod am y gweithgareddau creadigol sydd ar gael iddynt a'r ethos cyfeillgar sy'n bodoli.  Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd yn brydlon.  Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt yn gyson hwyr ac mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n isel dros amser ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da**

Mae'r athrawon yn cynllunio cwricwlwm arloesol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus iawn.  Maent yn darparu ystod wefreiddiol o brofiadau dysgu cyffrous a byrlymus, sy'n sbarduno dychymyg a dysgu'r disgyblion yn arbennig o effeithiol.  Mae'r profiadau rhagorol yn cynnwys galw'r gwasanaethau brys ar ôl i awyren hanesyddol ymddangos ar gae'r ysgol, darganfod 'Tardis' wrth ymyl yr adeilad a chyhoeddi llyfr o ysgrifennu creadigol y disgyblion.

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd godidog i ddysgu am hanes yr ardal leol a diwylliant Cymru.  Maent yn defnyddio ymweliadau yn fendigedig i ysbrydoli dysgu'r disgyblion.  Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ymweliadau addysgol i'r harbwr i weld llongau yn cael eu codi i'r môr a gwibdeithiau i gastell Aberystwyth ac Amgueddfa Werin Cymru.  Yn ogystal, maent yn trefnu ymwelwyr diddorol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion, gan gynnwys awduron lleol, clocswyr i gynnal gweithdai a sioe i godi ymwybyddiaeth disgyblion o fywyd faciwî yn yr Ail Ryfel Byd.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o'u hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae'r holl athrawon yn cynllunio themâu penigamp, sy'n hybu'r dysgu'n fwriadus ac yn ategu at ddealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus.  Maent yn cynnwys syniadau disgyblion yn fedrus wrth gynllunio gwersi difyr.  Mae hyn yn cynnal eu diddordeb a'u cymhelliant i lwyddo yn effeithiol.  Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn a gwneir defnydd da o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn bwrpasol.  Er enghraifft, maent yn cynnal helfa wyau Pasg i dargedu medrau rhifedd disgyblion yn dda ac yn chwilio am drychfilod i wella'u gwybodaeth am fyd natur.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn fanwl a phwrpasol ac maent yn effeithio'n gadarn ar ddysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn gosod heriau i amcangyfrif beth yw cost dilyn tîm rygbi Cymru yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ac yn ysgogi'r disgyblion i ysgrifennu sgriptiau ar gyfer rhaglenni radio. Fodd bynnag, nid oes digon o her yn bodoli i'r disgyblion mwyaf galluog i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darparu cyfleoedd synhwyrol i'r disgyblion recordio ac asesu eu gwaith ar lechi electronig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddefnyddio'r we i gywain gwybodaeth hanesyddol am gymeriadau fel Aneurin Bevan ac i greu basau data ar eu hoff gymeriadau ffilm.

Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau'r disgyblion. Mae'r berthynas waith gynhaliol, sydd yn amlwg ymhob dosbarth, yn meithrin parch a chwrteisi, ac yn creu naws lle gall disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion cydwybodol yn adnabod anghenion unigolion yn dda iawn ac yn eu hannog i wneud eu gorau ar bob achlysur. Mae eu haddysgu yn targedu'n effeithiol y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Fodd bynnag, ar adegau mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gorarwain yr addysgu, sy'n llesteirio dysgu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf galluog.

Mae'r athrawon yn asesu gwaith a chyfraniadau'r disgyblion yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn defnyddio gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn synhwyrol. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain, sydd yn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i wella'u gwaith. Yn ogystal, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda'r disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar gofnodi'r rhain ar bapur, sy'n effeithio'n andwyol ar brydlondeb disgyblion i ddechrau ar y dasg a'u dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryf iawn ac yn hynod o effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a chartrefol, lle rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu cymorth pwrpasol i bob unigolyn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r athrawon yn hybu diwylliannau Cymru a'r ardal leol yn fwriadus iawn. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn cyngherddau, i gystadlu mewn eisteddfodau ac i werthfawrogi celf, fel darlun o gapel anghysbell lleol. Mae'r profiadau ysgogol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant yr ardal a'r traddodiadau Cymreig yn effeithiol iawn. Yn ogystal, mae cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion ehangu eu medrau creadigol trwy weithio gydag artistiaid ar brosiectau dyfeisgar. Enghraifft nodedig yw murlun trawiadol a lliwgar yn neuadd yr ysgol, er cof am aelod o staff. Mae'r profiadau hyn, a'u tebyg, yn datblygu medrau creadigol a mynegiannol y disgyblion yn fwriadus a gwella'u hunanhyder a'u cymhelliant i gydweithio.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r staff yn eu hannog i fyw bywydau doeth ac i gyfrannu at gymdeithas fel dinasyddion cyfrifol, sy’n barod i ymgymryd â dyletswyddau ac i helpu eraill. O ganlyniad, maent yn ymweld â chartref yr henoed a chefnogi elusennau yn rheolaidd.

Mae nifer o bwyllgorau gweithgar yn hybu llais y disgybl yn ddeallus ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau synhwyrol er lles eu cymuned. Enghraifft gadarnhaol yw effaith ‘Criw Y Siarter Iaith’, sy’n hybu’r Gymraeg ym mywyd yr ysgol ac yn y gymuned leol. Mae eu gwaith yn weladwy iawn, fel trefnu gorymdaith trwy’r dref i ddathlu diwrnod ein nawdd sant, er mwyn codi ymwybyddiaeth y trigolion o rôl allweddol yr ysgol yn y gymuned.

Mae gweithdrefnau i olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl a thrylwyr. Gwneir defnydd effeithiol o’r canfyddiadau i dargedu anghenion unigolion yn fwriadus. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd angen y cymorth yn gywrain ac yn effeithio’n gadarnhaol iawn ar eu cynnydd. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn bwrpasol ac yn cynnwys targedau heriol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu yn dda. Caiff y cynlluniau eu hadolygu’n rheolaidd gyda’r disgyblion, yr athrawon a’r rhieni, dan arweiniad y cydlynydd cydwybodol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni’n dda o’u mannau cychwyn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae’r staff yn annog disgyblion i gadw’n heini yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn darparu gwersi ymarfer corff rheolaidd ac amrywiaeth ysgogol o weithgareddau allgyrsiol, sy’n cynnwys clybiau trawsgwlad a dawnsio.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a’r ysgol. Mae’r polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol iawn rhyngddynt a’r ysgol. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i’w hysbysu am weithgareddau a digwyddiadau allweddol. Mae bron pob rhiant yn gwerthfawrogi’r cyfathrebu cyson ac yn teimlo bod yr ysgol yn barod iawn i wrando ar eu safbwyntiau. Mae’r ymroddiad hwn, ar ran yr ysgol, yn annog rhieni i chwarae rhan weithredol a gwerthfawr ym mywyd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol a’r heddlu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu’r disgyblion i gadw’n ddiogel ar-lein ac i ddeall bod dyletswydd arnynt i leihau unrhyw risg yn eu bywydau, fel gwisgo gwregys diogelwch yn eu ceir. Mae’r pennaeth a’r swyddog lles yn cydweithio’n ddiwyd i geisio gwella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r presenoldeb yn cymharu’n ffafriol ag ysgolion tebyg dros amser.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth dylanwadol wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy’n seiliedig ar ehangu gorwelion a dyheadau’r disgyblion yn fwriadus. Caiff y pennaeth ei chefnogi’n effeithiol iawn gan uwch dîm rheoli cadarn a llywodraethwyr ymroddgar. O ganlyniad, maent yn gweithredu cyfundrefn sydd yn dosbarthu cyfrifoldebau yn ddeallus i’r staff, mewn awyrgylch hapus, gofalgar a chynhaliol.

Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn bwrpasol. Mae ail-strwythuro'u themâu a'u defnydd o sbardunau ysgogol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn gaboledig. Er enghraifft, maent yn gweithredu'n ddoeth ar syniadau'r disgyblion i ymestyn eu creadigrwydd, wrth drafod chwedlau lleol a hanes arfordirol y dref. Yn ogystal, mae'r ffocws cryf ar ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg yn cyfoethogi ac ymledu iaith y disgyblion yn fedrus, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr a chyfredol yn eu lle. Mae cyswllt hyfedr rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau arfarnol a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r arweinwyr yn ymateb i'r blaenoriaethau yn feistrolgar ac yn targedu'r materion i'w gwella yn synhwyrol, i fesur cynnydd ac i adnabod agweddau sydd angen sylw pellach. Mae amserlen fanwl yn bodoli ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion, sy'n arwain yn hynod o effeithiol at adroddiadau monitro gwerthfawr. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn adeiladu darlun dilys, gonest a dibynadwy o'r ysgol.

Mae'r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynllun gwella yn llwyddiannus. Mae'r trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd ymysg y staff yn creu rhwydwaith o gyfathrebu effeithiol, ac o'r herwydd, mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen eu datblygu. O ganlyniad, mae ffocws grymus ganddynt ar sut i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion i gefnogi gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Nodwedd gadarn o'r weithdrefn hon yw'r gweithredu ar argymhellion y cyngor ysgol i greu 'Hafan Hapus' ar fuarth yr ysgol, i gefnogi disgyblion dihyder a phryderus.

Mae gwybodaeth gref am berfformiad yr ysgol gan y llywodraethwyr. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol ac yn trafod bwriadau presennol a thymor hir yr ysgol yn huawdl. Er enghraifft, maent yn ddeallus wrth esbonio pwrpas yr hyfforddiant cyhwysfawr a'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i wella addysgu'r staff ar lawr y dosbarth.

Mae'r llywodraethwyr, ynghyd â'r pennaeth, yn monitro gwariant ac effeithiolrwydd adnoddau yn fanwl. Mae hyn yn cynnwys defnydd miniog o'r arian wrth gefn a grantiau ychwanegol i gynnal darpariaeth gynhwysol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn cynnig arweiniad celfydd ac yn gosod heriau allweddol i'r ysgol fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r cynllun effeithiol i ddatblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar fedrau ac arbenigedd staff, er enghraifft er mwyn mireinio'u cymwyseddau digidol a chanolbwyntio ar bwysigrwydd ymyraethau cynnar i wella medrau'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn rhannu eu harbenigedd gyda'u cydweithwyr yn fwriadus ac mae'r hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r staff, yr adeilad a thir yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau yn ardal allanol y cyfnod sylfaen, sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i gyfoethogi'r cwricwlwm a gwella deilliannau'r disgyblion yn cael eu defnyddio'n grefftus.

Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r defnydd effeithiol a wneir o warged yr ysgol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi yn y dosbarthiadau.  Mae'r ysgol yn monitro hyn yn ystyrlon trwy ganolbwyntio'n ofalus ar effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion. Gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn.  O ganlyniad, mae'r gwariant yn cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau'r cynlluniau gwella.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/06/2019